



CYFOETH NATURIOL CYMRU

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Datganiad Polisi ar Ymarfer Swyddogaethau Dewisol

Mae'r polisi hwn yn cadarnhau penderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag ymarfer ei bwerau dewisol dan reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Cymru (Local Government Pension Scheme - LGPS) sef:

- Rheoliad 60 LGPS (Rheoliadau) 2013;
- Paragraff 2(2) Atodlen 2 Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygiad) 2014;
- Rheoliad 66 Rheoliadau LGPS (Gweinyddu) 2008 – mewn perthynas ag ymadawyr rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, a
- Rheoliad 106 Rheoliadau LGPS 1997 – mewn perthynas ag ymadawyr rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2008

Dan y Rheoliadau hyn, bydd angen i bob cyflogwr mewn Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ffurfio, cyhoeddi a chadw adolygu Datganiad Polisi'n ymwneud â nifer o ddisgresiynau a ganiateir dan y Rheoliadau. Yn unol â'r Cytundeb Derbyn Cymunedol rhwng Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd y polisi yr un mor berthnasol i:

- Weithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (Environment Agency Pension Fund – EAPF);
- Hen staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sy'n cadw'u cymhwyster i ymuno â'r Gronfa Bensiwn ac a drosglwyddodd i Gyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013;
- Lle bo'n berthnasol, mae'r polisi hwn yn berthnasol i gyn aelodau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a ohiriodd ac aelod bensiynwyr a drosglwyddodd i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 ac i aelodau gohiriedig a adawodd y gwasanaeth pensiynadwy yn dilyn hynny cyn 1 Ebrill 2014 (er bod hynny mewn perthynas â disgresiynau a roddwyd ar waith ers dyddiad y polisi hwn) ac i aelodau credyd pensiwn; ac
- Aelod-bensiynwyr gweithgar, gohiriedig a drosglwyddodd i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2015 o Caldicot and Wentloog Internal Drainage Board.

Rydym wedi gosod y meini prawf y byddwn yn eu hystyried wrth wneud penderfyniad am y defnydd o ddisgresiynau'r awdurdod. Byddwn yn seilio'n penderfyniadau yn ymwneud â'r darpariaethau dewisol hyn gan ddefnyddio'r polisi cyfredol ar adeg y digwyddiad

perthnasol. Yn achos gwrthdaro rhwng disgresiwn a ysgrifennwyd yn y polisi hwn a'r rheoliadau llywodraethu, byddwn yn rhoi'r rheoliadau llywodraethu ar waith.

Cadwn yr hawl i newid y polisi unrhyw bryd a byddwn yn ei ailgyhoeddi ymhen mis o leiaf pan fydd y newid (iadau) a gyflwynwn yn dod i rym.

Nid yw'r polisi'n rhoi, ac nid ystyrir y bydd yn rhoi, unrhyw hawliau cyfamodol i unrhyw un o weithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, nac i unrhyw aelodau'r Gronfa Bensiwn.

Prif Egwyddorion

- Byddwn yn ymarfer y disgresiynau'n rhesymol ac yn ddidwyll;
- Lle mae cost yn gysylltiedig â chytuno'r disgresiwn, byddwn ond yn ymarfer disgresiwn lle rydym yn siŵr y bydd mantais busnes cysylltiedig i Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Byddwn yn ystyried disgresiwn fydd yn cael ei ymarfer am resymau tosturiol fel a osodwyd yn y Datganiad Polisi hwn;
- Byddwn yn cofnodi'n ffurfiol pob penderfyniad a wneir dan y Datganiad Polisi hwn ac yn rhoi gwybod amdanynt i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cymeradwyaeth ac Adolygiad Polisi

Byddwn yn adolygu'r disgresiynau yn y Datganiad Polisi hwn i ystyried newidiadau deddfwriaethol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, newidiadau i'r dreth, neu i adlewyrchu anghenion trefniadol a gweithredol.

DATGANIAD POLISI AR YMARFER SWYDDOGAETHAU DEWISOL POLISI GORFODOL

Allwedd i gyfeiriadau rheoleiddio

- Rheoliadau 2013 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nodir y gofyniad i ddarparu polisi ysgrifenedig mewn perthynas â rhai rheoliadau dan Reoliad 60 – **wedi'i ragddodi'n 'LGPS 2013'**;
- Rheoliadau 2014 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygiad) – **wedi'i ragddodi'n LGPS TP2014'**
- Rheoliadau 2008 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) – **wedi'i ragddodi'n 'LGPS Admin2008'**
- Rheoliadau 2007 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) – **wedi'i ragddodi'n 'LGPS Ben2007'**
- Rheoliadau 1997 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – **wedi'i ragddodi'n 'LGPS 1997'**
- Rheoliadau 1995 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – **wedi'i ragddodi'n 'LGPS 1995'**

Cyfeiriadau at:

- cyfeiria **'cyn HMIP' (Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Lygredd/Her Majesty's Inspectorate of Pollution)** at gyn Weision Sifil a drosglwyddodd i Asiantaeth yr Amgylchedd ar 1 Ebrill 1996 ac yn dilyn hynny i Gyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 a'r diogelwch perthnasol.
- cyfeirir at **Oedran Pensiwn Arferol (Normal Pension Age - NPA)** ar hyd y ddogfen hon. Gweler Atodiad A am fanylion oherwydd bydd NPA yn dibynnu ar a orffennodd aelod i fod yn aelod cyfrannog o'r LGPS.

LGPS 2013: rheoliad 16(2)(e) a 16(4)(d)

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (Additional Pension Contributions - APC)

Gallai'r cyflogwyr ethol i gyfrannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol at 'Contract Pensiwn Ychwanegol Cost ar y Cyd' a dynnir allan gan aelod cynllun gweithgar i brynu pensiwn blynyddol ychwanegol o hyd at £6,500. Dyma'r uchafswm y gellir ei brynu ar 1 Ebrill 2014, ond mae'n destun cynnydd gan y Gorchymyn Cynnydd Pensiwn mewn grym ar 1 Ebrill bob blwyddyn (seiliedig ar 'ddyddiad cychwyn; Cynnydd mewn Pensiynau ar 1 Ebrill 2013).

Ni fyddwn yn ymarfer disgrisiwn i fynd i drefniant Contract Pensiwn Ychwanegol Cost ar y Cyd.

Sylwch nad yw hyn yn berthnasol i rai absenoldebau lle mae'n ofyniad cyfreithiol i gyflogwyr dalu dwy ran o dair o'r APC, e.e. talu am gyfnod di-dâl o absenoldeb cysylltiedig â phlant.

LGPS 2013: rheoliad 30(6), 30(8)
LGPS TP2014: rheoliad 11(2) & 11(3), 3(5)
LGPS Ben2007: rheoliad 18(3)

Ymddeoliad Hyblyg – cyfeirir ato fel ‘Ymddeoliad Rhannol’ ar gais Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

- 30(6) **Bod modd i aelodau gweithgar 55 oed neu’n hŷn a chyda chytundeb eu cyflogwr i ostwng eu horiau, neu symud i swydd radd is, ethol i gael taliad eu holl fuddiannau ymddeol yn gyfan, neu’n rhannol, yn syth gyda chaniatâd eu cyflogwr.**
- 11(2) **Lle mae cyflogwr yn cytuno i ymddeoliad rhannol, bydd rhaid i’r**
 11(3) **gweithiwr godi ei holl fuddiannau cyn 1 Ebrill 2008. Yn ogystal, gallai’r gweithiwr dynnu’r cyfan, rhan neu ddim o’r buddiannau pensiwn a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014 ac/neu bob rhan, neu ddim un rhan o’r buddiannau pensiwn a gronnwyd ar ôl 31 Mawrth 2014.**

Byddwn yn ystyried pob cais am ymddeoliad rhannol trwy gwblhau achos busnes ac yn unol â’r gymeradwyaeth a ddirprwywyd ac ar yr amod bod o leiaf gostyngiad o 20% mewn cyflog.

Gosodir y manylion yn y polisi ‘Ymddeoliad Rhannol’ a byddant yn cael eu hystyried yn erbyn anghenion busnes a gweithredol.

- 30(6) **Ildio gostyngiad actiwaraid. Yn ogystal â chaniatáu’r cais am**
 30(8) **ymddeoliad rhannol, mae gan y cyflogwyr ddisgresiwn i ildio’r cyfan**
 3(5) **neu ran, yn ôl eu cost eu hunain, o unrhyw ostyngiad actiwaraid a**
 18(3) **fyddai fel arall yn berthnasol i’r buddiannau a gymerir adeg ymddeoliad rhannol cyn oedran pensiwn arferol (NPA, mae hyn yn hwyrach nag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65 oed)**

Fel rheol, ni fyddwn yn ymarfer y disgresiwn hwn oni bai bod budd busnes neu weithredol a’i fod yn ariannol ymarferol i ni wneud hynny. Byddwn yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr am unrhyw ostyngiadau actiwaraid a allai fod yn berthnasol o ganlyniad i gymryd y pensiwn cyn NPA. Rydym wedi gosod y manylion yn ein polisi ‘Ymddeoliad Rhannol’.

LGPS 2013: rheoliad 31
Dyfarnu Pensiwn Ychwanegol

- 31 **Mae gan gyflogwyr y disgresiwn i ganiatáu pensiwn blynyddol ychwanegol o hyd at £6,500 i aelod gweithgar, neu gyn aelod, sydd wedi’u diswyddo am resymau dileu swydd neu effeithlonrwydd busnes, o fewn chwe mis o’r swydd yn dod i ben. Dyma’r uchafswm y gellir ei ddyfarnu ar 1 Ebrill 2014, ond mae’n destun cynnydd gan y Gorchymyn Cynnydd Pensiynau sydd mewn grym ar 1 Ebrill bob**

blwyddyn (yn seiliedig ar ‘ddyddiad dechrau’ Cynnydd Pensiynau ar 1 Ebrill 2013).

Fel rheol, ni fyddwn yn ymarfer y disgresiwn hwn oni fod amgylchiadau eithriadol am wneud hynny a bod y busnes yn elwa o ganlyniad.

**LGPS TP2014: Atodlen 2, para 1(1)(c)
LGPS TP2014 Atodlen 2, para 1(2) a (4)
Ymddeoliad Gwirfoddol – ‘Rheol 85 Mlynedd’**

Gall cyflogwyr ddewis ‘gweithredu’r ‘rheol 85 mlynedd’ lle mae aelod gweithgar neu’r aelod gohiriedig yn dewis o’i wirfodd i godi ei fuddiannau rhwng 55 a 60 oed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014 (ar yr amod bod yr aelod yn aelod cyfrannog ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014 a bod y ‘rheol 85 mlynedd’ yn cael ei bodloni). Ni fydd y ‘rheol 85 mlynedd’ yn cael ei rhoi ar waith yn awtomatig oni fydd yr aelod (rhwng 55 a 60 oed) yn cymryd ymddeoliad rhannol.

Ni fyddwn yn ymarfer y disgresiwn hwn fel rheol, oni bai bod rhesymau eithriadol am resymau tosturiol i ystyried gwneud hynny. Rhoddir y manylion yn ein polisi ‘Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol ac Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd’.

Os nad yw’r cais yn un o dosturi, bydd disgwyl i aelod sy’n dewis ymddeol o’i wirfodd o 55 oed a chyn 60 oed fodloni unrhyw ostyngiadau actiwaraidd sy’n berthnasol i’w pensiwn o ganlyniad i’w cymryd cyn NPA (cyfrifir hwn trwy gyfeirio at nifer y blynyddoedd y’i cymerir cyn NPA). Lle mae gan aelod (yn y grŵp oedran hwn) fuddiannau sydd â:

- **Diogelwch y ‘rheol 85 mlynedd’** – bydd buddiannau wedi’u diogelu yn cael eu gostwng i ystyried eu bod yn cael eu talu cyn 60 oed; os bodlonwch y rheol 85 oed ar ôl 60 oed, bydd y gostyngiad yn fwy i gyfrif am hyn.
- **‘Diogelwch ‘rheol 85 mlynedd’ wedi’i feinhau** – bydd gostyngiad llai yn berthnasol i’r holl fuddiannau a gronwyd cyn 1 Ebrill 2020.
- **Diogelwch 65 oed (cyn 1 Ebrill, buddiannau nad ydynt yn cael eu diogelu gan y rheol 85 mlynedd)** – bydd y buddiannau’n cael eu gostwng i ystyried eu bod yn cael eu talu cyn 65 oed.
- **Dim diogelwch (buddiannau sy’n gysylltiedig ag NPA)** – bydd buddiannau’n cael eu gostwng i ystyried eu bod yn cael eu talu cyn NPA.

Nodir manylion pellach ar y ‘rheol 85 mlynedd’ a sut gallech gael eich effeithio gan y gostyngiadau neu a oes gostyngiadau rhannol yn berthnasol yn ein polisi ‘Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol ac ‘Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd’.

LGPS 2013: rheoliad 30(5), 30(8)

LGPS TP2014: R3(1) & 3(5), Atodlen 2, para 3(1) a 2(1), 3(2), 9

LGPS Ben 2007: R30(5), 30A(5)

Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol – ildio gostyngiadau actiwaraidd

Gallai cyflogwr ddewis ildio am **resymau tosturiol** unrhyw ostyngiad actiwaraidd a allai fod yn berthnasol i fuddiannau wedi'u diogelu dan Gynllun 2008 (h.y. buddiannau a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2014, neu unrhyw fuddiannau wedi'u diogelu gan y 'rheol 85 mlynedd') neu ildio'n gyfan gwbl neu'n rhannol, **am unrhyw reswm**, unrhyw ostyngiad actiwaraidd a allai fod yn berthnasol i 'fuddiannau heb eu diogelu' (h.y. buddiannau a gronnwyd o 1 Ebrill 2014 sydd heb eu diogelu gan y rheol 85 mlynedd) a gronnwyd gan aelod gweithgar, gohiriedig neu wedi'i atal yn sgil afiechyd haen 3 sy'n ymddeol o'i wirfodd yn 55 oed neu wedi hynny, neu o 50 oed os yw'r aelod yn gyn was Arolygydd Ei Mawrhydi ar Lygredd.

Dan LGPS 2014, nid oes angen caniatâd cyflogwr mwyach ar aelodau gweithgar rhwng 55 hyd at 60 oed i ymddeol a chael taliad eu buddiannau pensiwn yn syth. Fodd bynnag, bydd y buddiannau pensiwn yn destun gostyngiad actiwaraidd gan fod y pensiwn yn cael ei godi'n gynnar (60 oed yw'r oedran cynharaf nad yw pensiwn yn destun gostyngiad - bydd hyn yn dibynnu ar wasanaeth, oedran ac a oes gan yr aelod ddiogelwch 'rheol 85' - mae ein polisi 'Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar ac Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd' yn rhoi manylion ar sut bydd y gostyngiadau'n berthnasol i ymadawyr cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2014.

Fel rheol, ni fyddwn yn ymarfer disgrisiwn, ond gallwn ystyried rhesymau tosturiol gan aelodau ymddeoliad gweithgar, gohiriedig ac wedi atal yn sgil afiechyd haen 3 os oes rhesymau eithriadol am wneud hynny. Mae'r manylion yn ein 'Polisi Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar ac Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd'.

Gweinyddiaeth LGPs 2008: R66

LGPS Ben 2007: 30(2), 30(5), 30A(3), 30A(5)

Gall cyflogwyr ddewis p'un ai i ganiatáu ceisiadau grant er mwyn talu buddiannau pensiwn gohiriedig yn gynnar mewn perthynas ag ymadawyr rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014

- 30(2) Gall cyflogwyr ddewis caniatáu cais am dalu buddiannau gohiriedig yn gynnar yn 55 oed neu wedi hynny, neu'n 50 oed os ydy'r aelod yn gyn aelod o Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Lygredd, a chyn 60 oed.
- 30(5) Gallai'r cyflogwyr ildio unrhyw ostyngiadau actiwaraidd am resymau tosturiol sy'n berthnasol i fuddiannau a delir cyn eu bod yn 65 oed
- 30A(3) Gall cyflogwyr ganiatáu cais am dalu pensiwn afiechyd haen 3 wedi'i atal yn gynnar lle mae'r aelod rhwng 55 a 60 oed, neu rhwng 50 a 60 oed os ydy'r aelod yn gyn aelod o Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Lygredd

- 30A(5) Gallai cyflogwyr ildio am resymau tosturiol unrhyw ostyngiad actiwaraidd a allai fod yn berthnasol i unrhyw fuddiannau pensiwn afiechyd haen 3 wedi'i atal a ddygwyd yn ôl i daliad cyn 65 oed

Gallwn ganiatáu i ildio am resymau tosturiol unrhyw ostyngiad actiwaraidd i aelodau gohiriedig rhwng 55 oed (50 oed dan rai amgylchiadau os ydy'r aelod yn gyn aelod o Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Lygredd) ac yn 65 oed yn dilyn cais ysgrifenedig. Ni fyddwn yn gwneud hyn fel rheol, oni fod rhesymau eithriadol a'n bod ni'n fodlon fod y dystiolaeth a ddarperir yn un o dosturi gwirioneddol. Rydym bellach wedi gosod sut byddwn yn ystyried rhesymau tosturiol yn ein polisi 'Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar ac Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd'. Gallwn hefyd ystyried ceisiadau gan gyn aelodau afiechyd Haen 3 am resymau tosturiol os ydym yn fodlon fod amgylchiadau wedi codi sy'n atal neu'n cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r cyn weithiwr i ennill incwm o gyflogaeth.

LGPS 1997: rheoliad 106, 31(2) a 31(5)

Yn berthnasol i aelodau'r cynllun a orffennodd aelodaeth weithgar rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2008

- 31(2) Gallwn ddewis caniatáu ceisiadau i dalu'n gynnar fuddiannau pensiwn gohiriedig yn 50 oed neu wedi hynny, a chyn 60 oed. Os ydy'r aelod yn gyn aelod o Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Lygredd, mae ganddynt ddiogelwch i godi eu pensiwn o 50 oed ymlaen.
- 31(5) P'un ai i ildio am resymau tosturiol unrhyw ostyngiad actiwaraidd a fyddai'n berthnasol fel rheol i fuddiannau a delir cyn 65 oed.

Gallwn ganiatáu am resymau tosturiol i ildio unrhyw ostyngiad actiwaraidd i aelodau gohiriedig rhwng 50 a 65 oed yn dilyn cais ysgrifenedig. Ni fyddwn yn gwneud hyn fel rheol, oni fod rhesymau eithriadol a'n bod ni'n fodlon fod y dystiolaeth a ddarperir yn un o dosturi gwirioneddol. Rydym wedi gosod sut byddwn yn ystyried rhesymau tosturiol yn ein polisi 'Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar ac Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd'.

I'w nodi: Mae buddiannau gohiriedig a delir o 50 oed a chyn 55 oed yn destun ffi taliadau anawdurdodedig dan Ddeddf Cyllid 2004 sef, tâl treth i'w dalu gan y cyn aelod a'r gronfa bensiw. Byddwn felly ond yn ystyried y ceisiadau hynny dan amgylchiadau eithriadol.

LGPS 1995: rheoliad D11(2)(c)

Yn berthnasol i aelodau'r cynllun a orffennodd aelodaeth weithgar cyn 1 Ebrill 1998

Fel cyn gyflogwr, gallwn ganiatáu'r cais i dalu buddiannau gohiriedig yn gynnar i gael ei dalu cyn 50 oed neu wedi hynny am resymau tosturiol.

Gallwn ganiatáu am resymau tosturiol i ildio unrhyw ostyngiad actiwaraidd i aelodau

gohiriedig rhwng 50 a 65 oed. Rydym wedi gosod sut byddwn yn ystyried rhesymau tosturiol yn ein polisi 'Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar ac Ildio Gostyngiadau Actiwaraid'.
I'w nodi: Mae buddiannau gohiriedig a delir o 50 oed a chyn 55 oed yn destun ffi taliadau anawdurdodedig dan Ddeddf Cyllid 2004 sef, tâl treth i'w dalu gan y cyn aelod a'r gronfa bensiw. Byddwn felly ond yn ystyried y ceisiadau hynny dan amgylchiadau eithriadol.

LGPS 2013: rheoliad 74(1)

Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (Internal Dispute Resolution Procedure - IDR). Rhaid i ni benodi rhywun i ddelio â cheisiadau dan gam un y 'Weithdrefn Datrys Anghydfod'.

Gallai aelodau'r cynllun wneud cwyn ffurfiol dan IDR lle teimlant nad ydynt wedi cael eu trin o fewn telerau rheoliadau LGPS a lle mae'n ymwneud â cham gweithredu canfyddedig a gymerwyd gan y cyflogwr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi rhywun a fydd yn ymchwilio ac yn penderfynu ynghylch a ddylai'r gŵyn gael ei chynnal.

LGPS 2013: rheoliad 9(1) a 9(3)

Cyfraniadau'r Gweithwyr.

Rhaid i ni benderfynu ar y gyfradd cyfraniadau priodol yn amodol ar y cyfraddau cyfraniadau haenog sy'n berthnasol i bob aelod gweithgar.

Byddwn yn asesu'r gyfradd cyfraniadau ar 1 Ebrill bob blwyddyn yn erbyn y gwir gyflog a'r lwfansau pensiynadwy parhaol eraill a delir. Byddwn yn cynnal adolygiad cyfnodol yn ystod blwyddyn y cynllun yn unol â'n polisi 'Cyfraniadau' i ystyried taliadau pensiynadwy afreolaidd, cyfnewidiol a dalwyd dros y cyfnod perthnasol ac addasu cyfradd y cyfraniadau os oes angen. Byddwn yn newid y gyfradd cyfraniadau'n syth ar hyd y flwyddyn o ddyddiad effeithiol unrhyw newid mewn cyflogaeth neu newid perthnasol i gyfradd y cyflog pensiynadwy a ddaw i law. Lle mae gan weithwyr fwy nag un swydd gyda chontractau cyflogaeth ar wahân, byddwn yn asesu pob rôl ar wahân i benderfynu ar y gyfradd cyfraniadau sy'n berthnasol i bob rôl.

LGPS 2013: rheoliad 21(5)

Cyflog Pensiynadwy Tybiedig.

Cyfrifir Cyflog Pensiynadwy Tybiedig (Assumed Pensionable Pay - APP) pan fydd aelod:

- yn dechrau cyfnod o gyflog cyfamodol llai neu ddim cyflog oherwydd salwch neu anaf; neu'n
- absennol yn ystod cyfnod o ganiatâd cysylltiedig â phlentyn gyda thâl, neu'n
- absennol ar ganiatâd gwasanaeth y lluoedd wrth gefn, neu'n
- ymddeol gyda hawl i ymddeoliad afiechyd Haen 1 neu Haen 2; neu'n
- marw yn y swydd.

Defnyddir CPT i ddisodli'r cyflog pensiynadwy 'a gollir' yn ystod cyfnod o absenoldeb ac i gyfrifo'r buddiannau estynedig i'w talu yn dilyn ymddeoliad yn sgil afiechyd neu farwolaeth. Mae gan gyflogwyr ddisgresiwn i gynnwys unrhyw 'daliad un swm cyson' a gafwyd gan yr aelod yn ystod y 12 mis cyn dyddiad perthnasol unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir uchod.

Byddwn yn asesu pob achos yn unigol. Fel rheol, byddwn ond yn defnyddio taliadau parhaol, mynych, heb fod yn amrywiol i gynyddu'r APP a bydd ond yn cynnwys lle ystyrir bod disgwyliad rhesymol y byddai'r un swm wedi'i dalu'n gyson.

LGPS 2013: rheoliad 22(8)(b) a 22(7)(b)

Ymestyn terfyn amser 12 mis i aelod o'r cynllun ethol na ddylai'r buddiannau gohiriedig hynny gael eu cydgrynhoi:

- **gyda chyflogaeth newydd – 22(8)(b); neu**
- **gyda chyflogaeth barhaus ar yr un pryd – 22(7)(b)**

Byddwn ond yn ymestyn y terfyn amser 12 mis i aelod o'r cynllun ethol i gadw'r cyfrifon pensiwn gohiriedig ar wahân mewn perthynas â hen gyfnodau neu gyfnodau cydamserol o aelodaeth LGPS dan amgylchiadau eithriadol lle gall aelod y cynllun ddangos fod y rheswm am eu cais hwyr y tu allan i'w rheolaeth,

LGPS 2013: rheoliad 100(6), 22(7) a (8)

Ceisiadau Trosglwyddo'n Hwyr

Byddwn ond yn ymestyn y terfyn amser 12 mis i aelod o'r cynllun ethol i drosglwyddo cynllun pensiwn llywodraeth heb fod yn lleol, neu gynllun pensiwn personol i mewn gyda chytundeb yr Awdurdod Gweinyddu, Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddwn ond yn ystyried amgylchiadau eithriadol lle gall yr aelod o'r cynllun ddangos bod y rheswm am eu cais hwyr y tu allan i'w rheolaeth.

LGPS TP2014: rheoliad 15(1)(b)

LGPS 1997: rheoliad 66(8) a 66(9)(b)

Ymestyn y terfyn amser i drosglwyddo Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn gredyd gwasanaeth. Mae'r disgresiwn hwn yn berthnasol i aelodau'r cynllun a ddechreuodd dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol cyn 13 Tachwedd 2001 ac sydd naill ai'n:

- **destun ymddeoliad afiechyd; neu**
- **wedi stopio talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol gan barhau i fod yn yr LGPS ac sydd dros 50 oed**

Mae terfyn 30 diwrnod (o orffen bod yn aelod cynllun gweithgar) i aelod cynllun ethol trosglwyddo Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn gredydau gwasanaeth yn y prif Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddwn yn ymarfer disgresiwn i gytuno estyniad dan amgylchiadau lle mae oedi gweinyddol wedi byrhau'r cyfnod sydd ar gael i aelod y cynllun ystyried y dewisiadau sydd ar gael.

LGPS 2013: rheoliad 19(2), 91(1) (4)a(8), 92(1)&(2), 93(2), 95

LGPS Gweinyddu 2008: rheoliad 74(2), 72-76

LGPS 1997: rheoliad 88(2), 111-115

Gallwn hawlio arian o fuddiannau pensiwn aelod o'r cynllun mewn achosion o dwyll, camymddygiad a sefyllfaoedd tebyg eraill, neu gyfeirio'r arian hwnnw at rywun arall.

Lle bodlonir yr amgylchiadau yr ymdrinnir â nhw yn y darpariaethau hyn, byddwn yn penderfynu p'un ai i ddefnyddio'r disgresiwn hwn.

Cynllun Dirprwyo – Cymeradwyaeth

- Lle mae gan y cais gost cyflogwr cysylltiedig, bydd y Rheolwr Llinell yn llenwi ffurflen achos busnes. Yna bydd yr achos busnes yn cael ei ystyried am gymeradwyaeth gan:
 1. BSS (Gwasanaethau Pobl) (i sicrhau bod unrhyw gostau cronfa bensiwn a chyfeiriad at reoliadau'n cael eu cyflwyno'n gywir).
 2. Cyfarwyddwr Gweithredol (y Gyfarwyddiaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r cais, neu'n destun yr achos busnes).
 3. Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol

Sylwch

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Dylunio Trefniadol a Rheoli Pobl, yn ystyried y cais, lle mae'r achos busnes yn ymwneud ag aelod o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol.

Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried yr achos busnes lle mae a wnelo'r cais â Chyfarwyddwr neu aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth.

Gwahanol Oedrannau Pensiwn Arferol (NPA) dan Gynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol

Mae'ch NPA yn dibynnu ar pryd gorffennoch chi fod yn aelod cyfrannog o'r LGPS
Os **gorffennoch** chi aelodaeth gyfrannog:

1. Cyn 1 Ebrill 1998

Eich NPA yw'r pwynt y byddech chi wedi adeiladu 25 mlynedd o wasanaeth cymhwyso a byddech chi'n 60 oed o leiaf (uchafswm oedran 65).

2. Cyn 1 Hydref ac wedi ymuno cyn 1 Ebrill 1998

Eich NPA yw'r pwynt y byddech chi wedi adeiladu 25 mlynedd o wasanaeth cymhwyso a byddech chi'n 60 oed o leiaf (uchafswm oedran 65).

3. Cyn 1 Ebrill 2014 ac wedi ymuno cyn 1 Hydref 2006

65 oed yw'ch NPA, ond hwyrach fod gennych ddiogelwch o ostyngiadau taliadau cynnar dan y 'rheol 85 mlynedd'. Esbonnir hyn ar y dudalen nesaf yn Atodiad 2

4. Cyn 1 Ebrill 2014, ond nad ydych yn bodloni pwynt 1, 2, neu 3 uchod

65 oed yw'ch NPA.

5. Ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny

Eich NPA yw'r diweddaraf o'ch oed pensiwn y wladwriaeth neu 65 oed, ond bydd buddiannau a gronwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cadw'r 'hen' NPA sef 65. Sylwch na fydd eich oed pensiwn y wladwriaeth heddiw o reidrwydd yn oed pensiwn y wladwriaeth yn y dyfodol gan y bydd hwn yn cael ei asesu ar y pwynt y talwyd eich buddiannau gyntaf.